Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Ms Bethan Sayed
Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

**Cyfeirnod:** HVT/2853/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 11 Mehefin 2018

Annwyl Ms Sayed

## Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol: Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood

Mae'n bleser gennyf amgáu copi dan waharddiad o'm hadroddiad ar berthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood, y byddaf yn ei gyhoeddi yfory, Dydd Mawrth, 12 Mehefin. Mae'r cyfieithiad o'r adroddiad yn cael ei gwblhau nes ymlaen heddiw a bydd copi Cymraeg gyda chi erbyn yfory.

Mae'r adroddiad hwn, a baratowyd gennyf ar sail 'ffeithiau yn unig' (ac sydd felly'n cynnwys dim casgliadau archwilio nac argymhellion), yn edrych i mewn i'r Cytundeb Cydweithio a wnaed rhwng Llywodraeth Cymru a Pinewood ym mis Chwefror 2014 er mwyn hyrwyddo cynhyrchu rhaglenni teledu a ffilmiau yng Nghymru. Mae hefyd yn cyflwyno'r ffeithiau a arweiniodd at derfynu'r cytundeb hwnnw ynghyd â manylion y Cytundeb Gwasanaethau Rheoli a'i holynodd, a gychwynnodd ym mis Tachwedd 2017.

Gwn am yr ymchwiliad y mae eich Pwyllgor yn dal i'w gynnal i Gynhyrchu Ffilmiau a Rhaglenni Teledu pwysig yng Nghymru, a gobeithiaf y bydd f'adroddiad o ryw gymorth i chi yn y gwaith hwnnw. Os byddwch yn dymuno trafod unrhyw agweddau ar yr adroddiad yna bydd Mike Usher, fy Nghyfarwyddwr Prosiect, yn hapus iawn i wneud hynny.

Anfonaf gopi o'r llythyr hwn, ynghyd â'r adroddiad, at Nick Ramsey fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

*Amg: The Welsh Government's relationship with Pinewood*

*cc: Mr Nick Ramsay, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus*.